

**Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
(BIPCTM) a gynhaliwyd ddydd Iau 26 Ionawr 2023 yn Gyfarfod Rhithwir
a Ddarlledwyd yn Fyw drwy Microsoft Teams**

Aelodau'n bresennol:

Emrys Elias	Cadeirydd
Paul Mears	Y Prif Weithredwr
Jayne Sadgrove	Is-Gadeirydd/Aelod Annibynnol
Patsy Roseblade	Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Lynda Thomas	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Geraint Hopkins	Aelod Annibynnol
Linda Prosser	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid
Greg Dix	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Dom Hurford	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Lauren Edwards	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Gethin Hughes	Prif Swyddog Gweithredu
Sally May	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl
Sally Bolt	Aelod Cysylltiol

Eraill yn bresennol:

Stuart Morris	Cyfarwyddwr Digidol
Sara Thomas	Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Matthew Butt	Pennaeth Staff
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Gillian Day	Rheolwr Rhaglen Iechyd a Lles (Yn rhannol)
Mohamed Elnasharty	Arweinydd Meddygol Grŵp Gofal
Sarah Fox	Pennaeth Bydwreigiaeth a Gynaecoleg (Yn rhannol)
Wendy Penrhyn-Jones	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a Busnes y Bwrdd
Emma Samways	Archwilio Mewnol (Arsylwi)
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

**Eitem ar yr
Agenda**

1 MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai a oedd yn ymuno am y tro cyntaf, y rhai a oedd yn arsylwi a'r cydweithwyr oedd yn ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. **Nodwyd** hefyd fformat y digwyddiad yn ei ffurf rithwir gan y Cadeirydd.

1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth:

- Carolyn Donoghue, Aelod Annibynnol
- Mel Jehu, Aelod Annibynnol
- Lisa Curtis-Jones, Aelod Cyswllt
- Anne Morris, Aelod Cyswllt

1.3 Datganiadau o Fuddiannau

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ar y pwynt hwn.

2 GWRANDO A DYSGU AR Y CYD

2.1 Stori Gwranddo a Dysgu

Rhannodd G Day, Rheolwr Rhaglen Iechyd a Lles, gyflwyniad a fideo yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Rhaglen Gwasanaeth Gwella Lles.

Diolchodd y Cadeirydd i G Day am rannu'r cyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau gan Aelodau'r Bwrdd.

Dyweddodd L Thomas ei bod wedi'i hysbrydoli gan y cyflwyniad ac ychwanegodd y byddai'n hapus i gynnig unrhyw gefnogaeth i'r prosiect a fyddai'n fuddiol i'r tîm. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan L Thomas ynghylch beth oedd potensial y gwasanaeth, dywedodd G Day y byddai'n bwysig i'r gwasanaeth ddangos y gwerth y mae'r gwasanaeth yn ei ychwanegu a sut y gellid ei ddatblygu ymhellach. Dywedodd G Day fod y gwasanaeth ar hyn o bryd yn cyfeirio cleifion yr oedd angen cymorth mwy parhaus arnynt at wasanaethau eraill. Nododd yr aelodau fod hwn yn cael ei ystyried yn brosiect Esiamplwyr Bevan o ran ei faint a'i raddfa a'i ddull o weithredu. Dywedodd G Day fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Byrddau Iechyd eraill a oedd wedi mynegi diddordeb mewn mabwysiadu'r model gwasanaeth ac ychwanegodd y byddai'n eithaf syml ehangu'r prosiect o ran recriwtio i swyddi.

Croesawodd P Mears y cyflwyniad hefyd gan nodi pa mor falch ydoedd o weld effaith gadarnhaol y prosiect. Eglurodd P Mears mai pwrpas y gwasanaeth yw cefnogi cleifion mewn ffordd wahanol er mwyn hatal rhag cael ymyriad meddygol, ychwanegodd y byddai angen ystyried cynyddu'r gwasanaeth a meintioli'r manteision. Nododd yr aelodau y byddai'r gwasanaeth hwn hefyd yn creu cyfleoedd i ymgysylltu â Grwpiau Cymunedol a Gwirfoddolwyr ac y gellid ei ymgorffori yn strategaeth y Bwrdd Iechyd. Dywedodd G Day fod Gofal Sylfaenol yn ailgynllunio eu gwasanaethau atal o amgylch y prosiect hwn.

Diolchodd G Hughes hefyd i G Day am rannu'r cyflwyniad a oedd yn atgoffa'r Aelodau o werth y mathau hyn o wasanaethau a dywedodd mai'r gobaith oedd y byddai cyllid y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei gadarnhau'n fuan. Dywedodd G Hughes fod y gwasanaethau hyn yn newid y ffocws o fodel

gofal iechyd meddygol gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal yn y Grŵp Arwain Gweithredol ynghylch sut y byddai gwasanaethau gofal eilaidd yn ffitio i mewn i'r model hwn. Nododd yr aelodau fod cleifion wedi bod yn aros am amser eithriadol o hir am ymyriadau a nodwyd bod y rhaglen hon wedi gallu helpu cleifion i fyw'n fwy cyfforddus a nodwyd y gellid ymestyn y rhaglen hon i wasanaethau eraill, er enghraifft, Iechyd Menywod. Dywedodd G Day fod y Tîm yn y broses o ystyried creu llwybr mewn perthynas ag Iechyd Menywod.

Croesawodd S Thomas waith y rhaglen hefyd ac adleisiodd y sylwadau a wnaed gan Aelodau'r Bwrdd. Dywedodd S Thomas y byddai'n bwysig ystyried anghenion cleifion a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Nododd yr Aelodau fod trafodaeth mewn perthynas â'r rhaglen wedi'i chynnal gyda'r Prif Swyddog Meddygol a Thîm Arwain Iechyd y Cyhoedd lle amlygwyd bod gan y rhaglen y gallu i alinio ar draws pob agwedd ar ofal. Dywedodd G Day ei bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r gwasanaeth yn parhau i dyfu.

Diolchodd y Cadeirydd unwaith eto i G Day am rannu cyflwyniad ardderchog ac estynnodd ei ddiolch i G Day a gweddill y Tîm am y gwaith oedd yn cael ei wneud.

Penderfyniad: **NODWYD** y Stori Gwrando a Dysgu.

3 AGENDA GYDSYNIAD

3.1 I'W CYMERADWYO

3.1.1 Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 sydd eto i'w cadarnhau

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion.

3.1.2 Cofnodion y cyfarfod Mewn Pwyllgor a gynhaliwyd 24 Tachwedd 2022 sydd eto i'w cadarnhau

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion.

3.1.3 Cofnodion o'r cyfarfod Mewn Pwyllgor Arbennig a gynhaliwyd 13 Rhagfyr 2022 sydd eto i'w cadarnhau

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion.

3.1.4 Adroddiad y Cadeirydd – Gosod y Sêl Gyffredin a Chadarnhau Gweithred y Cadeirydd

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.5 Gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.6 Polisi Fframwaith Safonau Ymddygiad - Newid i'r Ffurflenni Datganiad o Fuddiannau

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.1.7 Cylch Busnes Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2023

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y Cylch Busnes Blynyddol ar gyfer 2023.

3.1.8 Adroddiad Cynllun Dirprwyo

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** yr adroddiad.

3.2 I'W NODI

3.2.1 Cofnodion Gweithredu

Penderfyniad: **NODWYD** y Cofnodion Gweithredu.

3.2.2 Blaengynllun Gwaith y Bwrdd

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

3.2.3 Adroddiadau Crynhoi gan Bwyllgorau

Penderfyniad: **NODWYD** Adroddiadau Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor.

3.2.4 Adroddiadau Crynhoi'r Cyd-bwyllgorau

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiadau.

3.2.5 Adroddiad Blynyddol Diogelu

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

4. PRIF AGENDA

4.1 Materion sy'n Codi heb eu hystyried yn y Cofnodion Gweithredu

Nid oedd unrhyw faterion pellach sy'n codi a nodwyd.

5. LLYWODRAETHU A SICRWYDD INTEGREDIG

5.1 Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd P Mears yr adroddiad ac amlygodd y materion allweddol i sylw'r Bwrdd. Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad hefyd gan M Butt mewn

perthynas â statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd a diweddariad gan L Prosser mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â Gweithredu Diwydiannol.

Croesawodd I Wells y diweddariadau a ddarparwyd a dywedodd ei fod yn falch o weld bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru bellach wedi llacio Uned Tŷ Llidiard o Lefel 4 i Lefel 3 a nododd y byddai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn monitro'r sefyllfa wrth symud ymlaen. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan I Wells ynghylch a fyddai'r Bwrdd yn cael diweddariadau pellach ar gynnydd, awgrymodd P Mears y gallai fod yn ddefnyddiol gwahodd Tîm Tŷ Llidiard i gyfarfod Bwrdd yn y dyfodol i amlinellu'r daith y maent wedi bod arni yn ystod y bynyddoedd diwethaf. Cytunodd L Edwards i drafod ymhellach gyda'r Tîm ynghylch pryd y byddent yn gallu bod yn bresennol.

Soniodd I Wells hefyd am yr adborth cadarnhaol a gafwyd mewn perthynas â'r digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ynghylch datblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg, ac ychwanegodd ei bod yn bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar y model hwn ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn y dyfodol. Mewn ymateb i ymholiad gan I Wells, dywedodd P Mears fod crynodeb o'r adborth a'r camau nesaf yn y broses o gael eu datblygu a fyddai'n cael eu rhannu maes o law.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd ynghylch pa gynlluniau oedd yn eu lle i fynd i'r afael ag effaith y gweithredu diwydiannol arfaethedig a oedd yn digwydd ddydd Llun 6 a dydd Mawrth 7 Chwefror, dywedodd P Mears fod y strwythur Rheolaeth Aur wedi'i sefydlu i ddarparu'r trosolwg Gweithredol a bod cynlluniau'n cael eu datblygu er mwyn cynnal gwasanaethau. Nododd yr aelodau fod rhai gwasanaethau wedi'u canslo o ganlyniad i broblemau capasiti a nodwyd yn ystod y streic flaenorol a gynhaliwyd gan weithwyr ambiwlans y gwelwyd lefelau isel o alw.

Diolchodd y Cadeirydd i P Mears am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam gweithredu: Gwahodd Tîm Tŷ Llidiard i gyfarfod Bwrdd yn y dyfodol i amlinellu'r daith y buont drwyddi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

5.2 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Cyflwynodd C Hamblyn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan dynnu sylw'r Bwrdd at y newidiadau sylweddol i'r Prif Risgiau yn ystod y cyfnod hwn.

Croesawodd P Roseblade yr adroddiad wedi'i wella a oedd, yn ei barn hi, yn llawer haws ei ddarllen. Cyfeiriodd P Roseblade at Brif Risg 9, "Cyflawni ein Dyletswyddau ac Uchelgeisiau Amgylcheddol a Chymdeithasol", gan awgrymu y dylai'r camau lliniaru adlewyrchu anghenion iechyd y boblogaeth yn fanylach. . Dywedodd L Prosser y byddai'n cynnal adolygiad pellach o'r risg

hon ochr yn ochr â S Thomas i sicrhau bod eglurder ynghylch pwrpas penodol y risg a'i nod. Cytunodd L Prosser i ddarparu ymateb i P Roseblade y tu allan i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd P Roseblade at y datganiad a wnaed ar dudalen 5 o'r adroddiad bod Bwrdd Gwella Ysbyty'r Tywysog Siarl wedi'i dynnu'n ôl a bod gan bob safle ei Grŵp Rheoli Gwasanaethau Gweithredol ei hun a gofynnodd am eglurder ynghylch sut roedd hyn yn gweithio o ystyried bod y Bwrdd Iechyd wedi symud i fodel Grŵp Gofal erbyn hyn. Dywedodd G Dix, wrth i'r Cynllun Busnes ICTM fynd rhagddo, y teimlwyd bod angen integreiddio gwelliant ac arloesedd o fewn Grwpiau Gofal yn hytrach na'u cyflawni o fewn swyddogaeth ganolog fel yn flaenorol.

Cyfeiriodd J Sadgrove at y grwpiau gwella penodol a oedd wedi'u sefydlu, a amlinellwyd ar dudalen 4 yr adroddiad; ac amlygodd drafodaethau diweddar yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar bwysigrwydd myfyrio ar, a lledaenu ddysgu pan oedd grwpiau o'r fath wedi cyrraedd eu hamcanion ac wedi trosglwyddo i fusnes fel arfer.

Diolchodd y Cadeirydd i C Hamblyn am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Cam gweithredu: Adolygiad i'w gynnal mewn perthynas â Risg Strategol 9 i sicrhau bod eglurder ynghylch pwrpas penodol y risg a'i nod. Ymateb i'w ddarparu y tu allan i'r cyfarfod.

Dangosfwrdd Perfformiad Integredig - Rhan 1

5.3

Cyflwynodd L Prosser yr adroddiad a dywedodd fod gwaith yn parhau i fireinio a datblygu'r adroddiad ymhellach. Dywedodd L Prosser, mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd ynghylch pam mai dim ond un pwynt data oedd wedi'i gynnwys ar gyfer y Data Sgrinio'r Coluddyn, fod adolygiad wedi'i gynnal lle nodwyd nad oedd unrhyw bwyntiau data pellach ar gael y tu hwnt i'r data. 2019/2020.

Cyflwynodd G Hughes ddiweddariad mewn perthynas ag adran **Perfformiad Gweithredu**'r adroddiad a nodwyd y pwyntiau allweddol a ganlyn:

Gofal brys

- Roedd Rhagfyr yn fis eithriadol o heriol gyda'r niferoedd a fynychodd Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys 18% yn uwch o gymharu â Rhagfyr 2021;
- Roedd aciwtedd cleifion yn heriol, gyda chynnydd i'w weld yn nifer y cleifion gyda'r ffliw;
- Yn anffodus, cafodd preifatrwydd ac urddas cleifion ei berygu yn ystod y cyfnod hwn;
- Cafwyd problemau o ran oedi wrth ryddhau cleifion a oedd yn sylweddol uwch o gymharu â'r hyn a gafwyd ledled Cymru. Roedd hyn wedi effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddadlwytho ambiwlansys a'r gallu i

ddarparu ymateb amserol i gleifion yn y gymuned. Nododd yr Aelodau fod nifer o gamau wedi'u cymryd gyda chydweithwyr o'r Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â'r sefyllfa a nodwyd bod Canolfan Reoli wedi'i weithredu lle gallai amrywiaeth o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol gael cyngor brys gan Feddyg Teulu;

- Er gwaethaf y pwysau a brofwyd, roedd y Bwrdd Iechyd wedi gallu cadw gwelyau wedi'u neilltuo ar gyfer derbyn cleifion strôc ar safleoedd ysbytai Tywysog Siarl a Thywysoges Cymru;
- Roedd cyhoeddiad diweddar Adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Tywysoges Cymru wedi tynnu sylw at yr ymdrechion aruthrol sy'n cael eu gwneud gan staff i gadw cleifion yn ddiogel.

Mewn perthynas â Gofal wedi'i Gynllunio, nododd yr Aelodau, er bod y metrigau 52 wythnos a 104 wythnos yn wyrdd mewn perthynas â chynllun mewnol y Bwrdd Iechyd, nid oedd y metrigau'n wyrdd mewn perthynas ag uchelgais y Gweinidog. Nododd yr aelodau fod y dyddiad targed ar gyfer cyflawni'r metrigau hyn wedi'i ymestyn i ddiwedd Mehefin 2023 a nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn y broses o adolygu eu cynlluniau ac y byddai'n sylweddol heriol mynd i'r afael â'r ôl-groniadau mewn nifer o feysydd arbenigol, yn enwedig ENT ac Wroleg. Dywedodd G Hughes fod cymorth ariannol wedi'i sicrhau tan ddiwedd mis Mawrth 2023 gan Lywodraeth Cymru i anfon cleifion yn allanol.

Mewn perthynas â pherfformiad Canser, dywedodd G Hughes fod heriau penodol o fewn dau faes arbenigol, Gastroberfeddol Isaf (GI) ac Wroleg. Nododd yr aelodau fod gwaith modelu'n cael ei gynnal gyda'r Uned Gyflawni yn y ddau faes hyn a nodwyd bod timau'n gweithio'n galed i leihau nifer y cleifion sy'n aros 104 diwrnod am driniaeth.

Mewn perthynas â gweithgaredd Iechyd Meddwl, nododd yr Aelodau fod gwaith yn cael ei gynnal i fynd i'r afael â'r materion a brofwyd mewn perthynas â mynediad at wasanaethau Seicoleg. Dywedodd G Hughes, er bod gostyngiad yn yr ôl-groniad ar restrau aros yn cael ei weld yn erbyn Rhan 1a ac 1b CAMHS, roedd pryderon mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn Rhan 2 y mesur. Nododd yr aelodau fod proses ail-ddilysu yn cael ei chynnal mewn perthynas â'r llwyth achosion. Nododd yr aelodau y bu gwelliant i'w groesawu mewn perfformiad mewn perthynas â'r Gwasanaeth Datrys Argyfwng a Thriniaeth Gartref Ddwys, yn dilyn pryderon a fynegwyd yn flaenorol mewn perthynas â lefelau isel o berfformiad.

Rhoddodd G Dix a D Hurford ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas ag adran **Perfformiad Ansawdd** yr adroddiad. Nododd yr aelodau'r perfformiad gwael yn erbyn y gyfradd gydymffurfio ag ymateb i gwynion o 30 diwrnod a oedd wedi bod yn mynd ar i lawr ers mis Medi 2022. Nodwyd sefydlu'r tîm pryderon canolog newydd fel lliniariad er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon a sicrhau cysondeb o ran ansawdd yr ymatebion a ddarperir. Rhoddodd G Dix sicrwydd i'r Bwrdd ei fod yn disgwyl i'r sefyllfa wella dros y misoedd nesaf.

Amlygodd D Hurford, mewn perthynas â chyfraddau marwolaethau, ei bod yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd gyfradd marwolaethau crai uwch o gymharu â gweddill Cymru, a allai fod o ganlyniad i'r ffaith fod y Bwrdd Iechyd yn cynnwys gofal lliniarol a data hosbis yn y ffigurau. Nododd yr Aelodau fod Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i adolygu'r data a nodwyd y byddai adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn amlinellu canfyddiadau ei adolygiad.

Mewn perthynas â Bwndel Sepsis 6, dywedodd D Hurford fod cydymffurfiaeth cleifion mewnol wedi gostwng ym mis Medi 2022. Nododd yr Aelodau y byddai'r Tîm Dirywio Acíwt yn cynnal adolygiad o'r sefyllfa i bennu'r rhesymau y tu ôl i lefelau isel o gydymffurfio.

Rhoddodd H Daniel ddiweddariad i'r aelodau ar adran **Perfformiad y Gweithlu** yr adroddiad. Nododd yr aelodau fod cynnydd araf wedi'i wneud mewn perthynas â gwella Perfformiad, Adolygiadau Datblygiad (PDRs) a pherfformiad Sgiliau Craidd, gyda chynnydd mewn perfformiad i'w weld dros y misoedd diwethaf. Mewn perthynas ag absenoldeb salwch, er bod gostyngiad i'w weld mewn lefelau absenoldeb salwch, nid oedd y sefyllfa wedi normaleiddio i lefelau cyn-covid eto. Nododd yr aelodau fod mis Rhagfyr yn fis arbennig o heriol o ran argaeledd gweithlu o ganlyniad i firysau annwyd a ffliw.

Cyfeiriodd N Milligan at y wybodaeth yn yr adroddiad mewn perthynas ag adrodd am sepsis tebygol, y dylid adrodd arno o fewn awr, a holodd a oedd perfformiad a adroddwyd ar gyfer Ysbyty Brenhinol Morgannwg naill ai'n is na 60% neu 70.6% yn cydymffurfio. Dywedodd D Hurford mai dim ond 60% o'r achosion tebygol oedd yn cael eu cofnodi o fewn yr awr a dywedodd y byddai camau'n cael eu cymryd i gyflwyno'r data'n gliriach yn y dyfodol.

Cydnabu P Roseblade fod cynnwys a chyflwyniad yr adroddiad yn cael eu hadolygu a chydabu fod angen rhai gwelliannau pellach i fireinio'r adroddiad. Diolchodd P Roseblade i'r tîm am wella'r adrodd mewn perthynas â siartiau digwyddiadau hysbysadwy Cenedlaethol a Lleol ac ychwanegodd y byddai'n cyfarfod ag aelod o'r tîm i drafod siartiau Rheoli'r Broses Ystadegol (SPC).

Cyfeiriodd P Roseblade at yr amrywiad yn yr adroddiad mewn perthynas â Digwyddiadau Hysbysadwy Lleol (LRIs), yn enwedig mewn perthynas â derbyn, trosglwyddo a rhyddhau, a nododd fod un LRI wedi'i adrodd ym mis Ionawr 2022, ac yna nad oedd dim wedi'i adrodd tan fis Hydref 2022, 8 ym mis Tachwedd ac yna dim ond un ym mis Rhagfyr 2022 pan oedd pwysau sylweddol yn yr adran. Cytunodd G Dix i gynnal adolygiad o'r sefyllfa, yn enwedig y cynnydd mawr ym mis Tachwedd a darparu ymateb y tu allan i'r cyfarfod.

Tynnodd P Roseblade sylw at y sylw ynghylch cywirdeb y data cwmpïadau ac awgrymodd na ddylid ei gynnwys yn yr adroddiad os na chaiff ei ddilysu. Dywedodd G Dix y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y cyflwynir data cwmpïadau wrth symud ymlaen gan y cydnabyddir y gallai hyn fod yn gamarweiniol.

Diolchodd J Sadgrove i L Prosser am y cynnydd oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion cyflwyno yn yr adroddiad a dywedodd y byddai'n gwneud sylwadau pellach y tu allan i'r cyfarfod ynghylch sut y gellid gwella'r adroddiad ymhellach. Diolchodd J Sadgrove i G Hughes am y diweddariad cynhwysfawr a ddarparwyd mewn perthynas â pherfformiad gweithredol ac am dynnu sylw at y materion o fewn CAMHS, dywedodd ymhellach fod adroddiad manwl ar CAMHS wedi'i dderbyn ym Mhwyllgor Ansawdd a Diogelwch mis Ionawr. Nododd yr aelodau fod cynllun gweithredu yn ei le mewn perthynas â CAMHS a nodwyd y byddai'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn monitro'r sefyllfa'n agos wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfraddau marwolaethau crai ysbytai a'r defnydd priodol o'r gwelyau asesu i driniaeth a dywedodd y byddai'n croesawu trafodaeth y tu allan i'r cyfarfod ar y defnydd o welyau. Dywedodd D Hurford fod y tîm eisoes wedi dechrau adolygiad a fyddai'n archwilio'r ffactorau hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam gweithredu: Data i'w cyflwyno'n gliriach yn yr iteriad nesaf o'r adroddiad mewn perthynas â sepsis tebygol.

Cam gweithredu: Adolygiad i'w gynnal o'r amrywiad sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad mewn perthynas â Digwyddiadau Hysbysadwy Lleol, yn enwedig y cynnydd mawr a ddigwyddodd ym mis Tachwedd 2022.

Cam gweithredu: Trafodaeth i'w chynnal gyda'r Cadeirydd y tu allan i'r cyfarfod mewn perthynas â'r defnydd o'r gwelyau asesu i drin.

Cam gweithredu: **Dangosfwrdd Perfformiad Integredig - Rhan 2 - Perfformiad Ariannol**

5.4 Cyflwynodd S May y sefyllfa ariannol ym Mis 9 a thynnodd sylw at y materion allweddol i sylw'r Aelodau.

Nododd yr aelodau, yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Tachwedd 2022 yn ymwneud â'r cais am gymorth arian parod strategol gan Lywodraeth Cymru, fod cadarnhad bellach wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru y byddai £26.5m yn cael ei ariannu drwy arian parod.

Diolchodd y Cadeirydd i S May am gyflwyno'r adroddiad.

NODWYD yr adroddiad.

Plentyn T - Adolygiad Ymarfer Plant

Penderfyniad:

5.5 Cyflwynodd D Hurford yr adroddiad a ddatblygwyd yn dilyn marwolaeth drasig Plentyn T. Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn nodi nifer o faterion a'r

camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hwy, gyda nifer o wersi wedi'u dysgu y byddai angen i'r Bwrdd Iechyd eu gweithredu. Nododd yr aelodau fod cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu a fyddai'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Dywedodd J Hehir ei fod yn aelod o'r Bwrdd Diogelu Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'i fod wedi cael cyfle i graffu'n fanwl ar yr achos hwn. Gofynnodd J Hehir am sicrwydd y byddai'r rhaglen hyfforddi a oedd yn cael ei chyflwyno hefyd yn cynnwys staff asiantaeth a locwm. Dywedodd D Hurford y bydd hyn yn cael ei ystyried, fodd bynnag, nododd fod rheoli hyfforddiant ar gyfer staff asiantaeth a locwm yn heriol.

Awgrymodd P Mears y gallai'r Aelod Annibynnol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ofyn i staff a ydynt yn teimlo'n ddiogel i godi eu llais a chodi pryderon fel rhan o'r cwestiynau 'ysgogol' yn ystod ymweliadau/teithiau safle IM. Amlygodd y Cadeirydd arwyddocâd gwaith tîm ac awgrymodd y dylid ystyried sut y gellid rhannu pwysigrwydd hyn fel rhan o'r gweithgaredd datblygu ar draws y Bwrdd Iechyd a'i gynnwys yn y rhaglen sefydlu ar gyfer staff.

Nododd y Cadeirydd fod cynllun gweithredu yn ei le a'i fod yn cael ei fonitro'n agos gan y Bwrdd Diogelu Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

Cam gweithredu: Ystyried sut y gellid rhannu pwysigrwydd gwaith tîm amlddisgyblaethol fel rhan o'r gweithgaredd datblygu ar draws y Bwrdd Iechyd a'i gynnwys yn y rhaglen sefydlu ar gyfer staff.

5.6 Adroddiad Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol

Cyflwynodd G Dix yr adroddiad a dywedodd wrth Aelodau'r Bwrdd fod y gwasanaeth wedi'i lacio o Fesurau Arbennig i Ymyrraeth wedi'i Thargedu. Nododd yr aelodau fod gweithgarwch gwella yn parhau. Dywedodd G Dix y byddai'n croesawu barn Aelodau'r Bwrdd ynghylch a fyddent yn fodlon i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wneud gwaith monitro wrth symud ymlaen, gydag adroddiadau i'r Bwrdd yn y dyfodol i'w gwneud drwy eithriad yn unig.

Cadarnhaodd J Sadgrove fod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn parhau i fod â rôl sylweddol o ran craffu ar gyflawni'r cynlluniau gweithredu a dywedodd ei bod hefyd yn mynychu Bwrdd Rhaglen Gwella Mamolaeth a Newyddenedigol fel Aelod Annibynnol, ac ychwanegodd fod y grŵp yn weithgar iawn o ran myfyrio ar arfer a sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan J Hehir ynghylch lefel yr hyder bod y gwelliannau hyd yn hyn yn gynaliadwy o ystyried y sefyllfa ariannol heriol, dywedodd G Dix fod y tîm wedi bod yn sicrhau bod yr amodau ar gyfer cynaliadwyedd wrth symud ymlaen yn cael eu hymgorffori mewn arfer ac ychwanegodd, er y byddai cwynion a digwyddiadau difrifol yn parhau i gael eu hadrodd, bod y gwasanaeth mewn lle llawer gwell o ran prosesau.

Cydnabu'r Aelodau fod heriau'n parhau o fewn Gwasanaethau Newyddenedigol a nodwyd y byddai'r Grŵp Gofal Plant a Theuluoedd newydd yn gallu ystyried sut mae'r gweithlu'n cael ei reoli ar draws y tri safle. Dywedodd G Dix fod y tîm wedi gweithio'n galed iawn dros y pedair blynedd diwethaf ar y rhaglen wella a'u bod wedi ymrwymo i wella'r sefyllfa ymhellach wrth symud ymlaen. Diolchodd J Hehir i G Dix am y sicrwydd a roddwyd.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i'r awgrym a wnaed gan G Dix y dylai'r cynnydd gael ei fonitro gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wrth symud ymlaen, ac yn y dyfodol mai eithriad yn unig fyddai adrodd i'r Bwrdd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.7 Sefyllfa o ran Trosiant a Chynlluniau Cadw

Cyflwynodd H Daniel yr adroddiad a dywedodd y byddai adroddiad manylach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mis Chwefror 2023. Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn nodi bod y gyfradd trosiant bresennol ar gyfer y Bwrdd Iechyd oddeutu 12%, gyda chynnydd gweddol unionlin i'w weld yn y trosiant ers 2018, ar draws yr holl grwpiau staffio. Nododd yr aelodau fod ystod y cyfraddau trosiant ar draws Cymru rhwng 10-14% a nodwyd y byddai adolygiad pellach o'r sefyllfa yn cael ei gynnal i ddysgu mwy am y rhesymau pam fod staff yn gadael. Dywedodd H Daniel y byddai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn monitro'r sefyllfa wrth symud ymlaen.

Croesawodd N Milligan yr ymarfer cwmpasu cychwynnol a gynhaliwyd gan y Timau ac ychwanegodd fod ymgysylltiad sylweddol wedi'i wneud gyda chydweithwyr Undebau Llafur ynghylch y darn hwn o waith. Diolchodd H Daniel i gydweithwyr Undebau Llafur am eu mewnbwn a'u cefnogaeth barhaus.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

5.8 Adroddiad Crynhoi'r Pwyllgor Digidol a Data

Cyflwynodd I Wells yr adroddiad a oedd yn amlygu dwy eitem i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd, un ohonynt yn ymwneud â materion capasiti ac adnoddau o fewn y Tîm Digidol a Data a'r llall yn uwchgyfeirio cadarnhaol yn ymwneud â'r gwelliannau a nodwyd yn ddiweddar yn dilyn archwiliad i godio clinigol. Croesawodd y Cadeirydd y newyddion cadarnhaol hwn am y cynnydd a wnaed yn y maes hwn.

Dywedodd S Morris, mewn perthynas â materion adnoddau a chapasiti, fod gwaith yn cael ei wneud i osod y sylfeini o fewn strwythur y Tîm Arweinyddiaeth Strategol ac yna y byddai angen alinio'r anghenion data â meysydd blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

6 STATWS UWCHGYFEIRIO

Nododd yr aelodau fod diweddariad wedi'i ddarparu fel rhan o adroddiad y Prif Weithredwr.

7. CYFLAWNI EIN PWRPAS A'N CYFEIRIAD STRATEGOL

7.1 Strategaeth CTM 2030

Cyflwynodd L Prosser yr eitem a rhannodd gyflwyniad fideo a oedd yn amlinellu'r hyn yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ceisio'i gyflawni fel sefydliad mewn perthynas ag archwilio gwahanol fformatau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o Strategaeth CTM 2030. Croesawodd yr Aelodau'r diweddariad a ddarparwyd a'r ffordd yr oedd wedi'i gyflwyno.

Diolchodd y Cadeirydd i L Prosser am roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Penderfyniad: **NODWYD** y cyflwyniad.

8 UNRHYW FATER ARALL

8.1 Grŵp Cyngori Clinigol

Rhoddodd S Bolt, Aelod Cyswllt, ddiweddariad llafar ar y trafodaethau a gynhaliwyd yn y Grŵp Cyngori Clinigol a oedd newydd ei adfywio a fynychwyd gan ystod eang o Staff Clinigol. Nododd yr aelodau bod trafodaethau wedi'u cynnal ynglŷn â'r Strwythur Grwpiau Gofal lle gofynnwyd am ddiweddariad mewn perthynas â cham nesaf y datblygiad. Cafwyd trafodaeth hefyd mewn perthynas â Thrawsnewid Digidol a'r angen am gyflwyno cynlluniau digidol amrywiol mewn modd cydgysylltiedig.

Diolchodd P Mears i S Bolt am y diweddariad a dywedodd ei fod yn falch o weld yr ystod ehangach o gydweithwyr clinigol sydd bellach yn rhan o'r grŵp. Awgrymodd P Mears y gallai fod yn ddiddorol i Aelodau Annibynnol fynychu sesiwn Bwrdd Seinio Clinigol a gofynnodd i'r Aelodau Annibynnol gysylltu â C Hamblyn a fyddai'n gallu helpu i gydgysylltu'r cais hwn.

8.1 Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n croesawu adborth gan Aelodau'r Bwrdd ynglŷn â sut, yn eu barn nhw, aeth cyfarfod heddiw, y tu allan i'r cyfarfod.

9 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 30 Mawrth 2023 am 10am.

10 DIWEDD Y CYFARFOD